**Senedd Cymru**
**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
**Ymchwiliad:** Llwybrau prentisiaeth
**Cyf:** AP27
**Ymateb gan:** UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru)

-

**Welsh Parliament**
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**
**Inquiry:** Apprenticeship pathways
**Ref:** AP27
**Evidence from:** UCAC (National Union of Teachers Wales)

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

www.ucac.cymru

**YMGYNGHORIAD AR BRENTISIAETHAU**

**Canolbwyntir ar y ddau gwestiwn isod:**

- **Gwybodaeth am brentisiaethau**: Sut y gellir rhannu arfer dda rhwng gwasanaethau gyrfaoedd, ysgolion, colegau a chyflogwyr o ran hyrwyddo prentisiaethau a darparu profiad gwaith ystyrlon?

- **Cymorth a mynediad cyfartal ar gyfer dysgwyr**: I ba raddau y mae llwybrau prentisiaeth yn agored i holl bobl ifanc Cymru a pha rwystrau sy'n wynebu grwpiau penodol o ran demograffig neu ardal ddaearyddol?

1. **Gwybodaeth am brentisiaethau**

   Mae ysgolion yn ymdrechu hyd eithaf eu gallu i roi gwybodaeth fanwl a chyfredol i ddysgwyr am yr opsiynau sydd ar gael iddynt wedi iddynt gyrraedd diwedd eu cyfnod o addysg statudol. Cyflwynir y wybodaeth hon iddynt mewn amrywiol ffyrdd e.e rhannu taflenni a phrosbectysau, cyflwyniadau yn yr ysgol (e.e. mewn gwasanaethau), nosweithiau agored/nosweithiau gyrfaoedd. Yn anorfod, mae gan ysgolion fwy o wybodaeth am y cyrsiau y maen nhw'n eu cynnig yn yr ysgol ac mae ysgolion yn naturiol am gadw eu dysgwyr, os tybiant fod dychwelyd i'r ysgol yn gam synhwyrol iddynt. Un o'r heriau yw'r ffaith fod sefydliadau yn 'cystadlu' am ddysgwyr, gan fod mwy o ddysgwyr yn golygu mwy o gyllid. Yn yr hinsawdd economaidd bresennol, mae cyllido cyrsiau yn her wirioneddol ac mae sefydliadau yn awyddus i gadw cymaint o ddysgwyr â phosibl, er mwyn cael cymaint o gyllid â phosibl.

   Eto i gyd, mae dilyn prentisiaeth yn opsiwn y dylid ei gynnig i'n dysgwyr, gan gofio fod prentisiaeth yn cwmpasu ystod eang o gyfleoedd. Nodwyd yn 2017 'Fel llywodraeth, rydym wedi ymrwymo i ddatblygu diwylliant yng Nghymru lle mae recriwtio prentis yn dod yn norm ar gyfer cyflogwyr, gan roi mynediad i unigolion at gyfleoedd am swyddi a sgiliau o ansawdd uchel.' [1] Tybed, fodd bynnag, a wireddwyd yr ymrwymiad hwn? Yn 2025, wyth mlynedd wedi cyhoeddi'r ddogfen uchod, a yw recriwtio prentis yn norm i gyflogwyr?

[1]Cysoni'r model Prentisiaethau ag anghenion economi Cymru – Llywodraeth Cymru (Chwefror 2017) tudalen 2

Cydnabuwyd yr angen yn y ddogfen uchod i 'brentisiaethau integreiddio'n fwy effeithiol i'r system addysg ehangach' a bod angen 'cydweithredu cryfach rhwng addysg academaidd a galwedigaethol, a'r ffordd y mae'r systemau hyn yn gweithio gyda'i gilydd'.[2] Mae'n hollbwysig fod dysgwyr yn cael cyngor diduedd, o ansawdd uchel.

Mae angen meddwl yn arloesol ac yn greadigol wrth gynnig amrywiol opsiynau i ddysgwyr, gan roi ystyriaeth i'r holl ddewisiadau posibl. A yw prentisiaethau yn cael eu marchnata'n ddigonol yn ein hysgolion a'n sefydliadau? Oni ddylid ystyried sut y gellir cyfuno prentisiaeth gyda chyfnodau mewn ysgol/coleg – y naill brofiad yn canolbwyntio ar yr elfen ymarferol a'r llall yn canolbwyntio ar yr elfen theori.

Rhaid cofio fod Byd Gwaith yn rhan o'r Cwricwlwm i Gymru:

'Dylai cwricwlwm ysgol alluogi dysgwyr i gael profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith a gyrfaoedd, gan feithrin gwybodaeth am ehangder y cyfleoedd a fydd ar gael iddyn nhw gydol eu hoes. Gall y dysgu hwn eu helpu i wneud penderfyniadau deallus am eu llwybrau gyrfa.'[3]

Yn yr un modd, cydnabyddir gwerth prentisiaethau yn y ddogfen 'Brentisiaethau: datganiad polisi'

'Mae'n hanfodol bod gennym system prentisiaethau sy'n ymatebol ac yn hyblyg i anghenion cyflogwyr ac unigolion.'[4]

Yn sicr dylid rhoi lle blaenllaw iddo, ond mae angen cymorth ar ysgolion – ni ddylid fod yn ddisgwyliedig ar athrawon i drefnu manylion gweinyddol e.e. yswiriant ay bar gyfer lleoliadau profiad gwaith.

Fel rhan o'r gwaith ar Fyd Gwaith, mae'n bwysig bod gwybodaeth ar gael am yr amrywiol lwybrau gyrfa, gan gynnwys prentisiaethau ac wrth drafod prentisiaethau, rhaid rhannu gwybodaeth am y meysydd y gellir dilyn prentisiaethau ynddynt. Rhaid sicrhau prentisiaethau mewn meysydd sy'n datblygu – nid maes sy'n aros yn ei unfan yw cyflogaeth. Mae datblygiadau technolegol a datblygiadau eraill yn golygu bod swyddi newydd yn cael eu creu. Rhaid i'r holl ddysgwyr gael y wybodaeth lawn am y ddarpariaeth sydd ar gael, pryd y mae recriwtio'n digwydd a beth fydd union delerau ac amodau'r brentisiaeth. Nodir hyn yn glir yn nogfen 2017 Llywodraeth Cymru:

'Rhaid i wybodaeth glir fod ar gael yn rhwydd i brentisiaid posibl, rhieni a chyflogwyr am y cyfleoedd sydd ar gael iddynt, yn enwedig pobl ifanc sy'n

---

[2] Ibid tudalennau 2 a 3

[3] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/themau-trawsgwricwlaidd-ar-gyfer-cynllunio-eich-cwricwlwm/#gyrfaoedd-a-phrofiadau-sy%E2%80%99n-gysylltiedig-%C3%A2-byd-gwaith

[4] Brentisiaethau: datganiad polisi Amcanion prentisiaethau yn canolbwyntio ar ddatblygiadau a heriau sy'n wynebu unigolion a chyflogwyr ar hyn o bryd (Chwefror 2024)

gadael yr ysgol, sydd ddim ond yn cael gwybodaeth am ddewisiadau chweched dosbarth ac addysg uwch. Er mwyn hyrwyddo hyn, byddwn yn symleiddio ac yn gwella'r rhyngwyneb rhwng cyflogwyr a dysgwyr, gan ei gwneud yn haws i gyflogwyr a darparwyr hyfforddiant farchnata prentisiaethau eu hunain.' [5]

Yn sgil y datganiad uchod, mae'n rhaid holi'r cwestiwn a wireddwyd hyn ac a ydy darpar brentisiaid, rhieni a chyflogwyr yn cael gwybodaeth glir am y cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Ydy'r sefyllfa wedi newid er 2017?

Mae angen sicrhau bod cyfleoedd ar gael i'r sawl sy'n cynnig prentisiaethau ar hyn o bryd i drafod gyda chwmnïau a sefydliadau sy'n ystyried cynnig prentisiaethau. Byddai trafod profiadau a siarad yn agored am fanteision a heriau yn llesol. Yn yr un modd, byddai'n dda pe bai dysgwyr mewn ysgolion yn cael cyfle i drafod profiadau'r sawl sy'n brentisiaid ar hyn o bryd, gyda'r cyfle iddynt i ddysgu beth yw manteision ac anfanteision dilyn prentisiaeth. Y gwir yw fod angen rhywun i gydlynu rhwng ysgolion, colegau, cyflogwyr, rhieni/gofalwyr, dysgwyr ayb.

## 2. Cymorth a mynediad cyfartal ar gyfer dysgwyr

Un rhwystr rhag sicrhau tegwch cyfle yw'r diffyg cyfleoedd i gael prentisiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, yn arbennig mewn rhai ardaloedd. Mae angen gweithio gyda chyflogwyr, gan hyrwyddo manteision y Gymraeg a chreu 'arfer' o fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg. Byddai'n syniad creu cyfeiriadur o brentisiaethau y mae'n bosibl eu dilyn drwy gyfrwng y Gymraeg, gan annog gweithleoedd i ymuno â'r rhestr honno. Mae prentisiaethau cyfrwng Cymraeg yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu gweithlu cyfrwng Cymraeg ac yn dangos i bobl ifanc werth y Gymraeg ar gyfer y gweithle a'r modd y mae'n cyfrannu at economi Cymru. Byddai ehangu prentisiaethau cyfrwng Cymraeg yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at y miliwn o siaradwyr Cymraeg.

Mae angen sicrhau hefyd fod ystod o brentisiaethau ar gael mewn ardaloedd gwledig. Er nad yr un fydd natur y prentisiaethau mewn gwahanol ardaloedd, eto i gyd, mae'n bwysig bod dilyn prentisiaeth yn opsiwn posibl i bobl ifanc ym mhob ardal. Rhaid cofio hefyd y gall pobl ifanc mewn ardaloedd gwledig wynebu'r her o orfod teithio cryn bellter, er mwyn cyrraedd lle gwaith. Mae angen ystyried hyn a sicrhau nad yw heriau daearyddol yn amharu'n ormodol ar gyfleoedd unigolion.

Rhaid cofio hefyd am yr heriau sy'n wynebu darpar brentisiaid o gartrefi incwm isel. Mae dechrau fel prentis yn dod ag oblygiadau ariannol yn ei sgil mewn rhai amgylchiadau. Wrth hyrwyddo prentisiaethau, mae angen sicrhau

---

[5] Cysoni'r model Prentisiaethau ag anghenion economi Cymru – Llywodraeth Cymru (Chwefror 2017) – tudalen 22

bod darpariaeth ar gyfer cludiant ac adnoddau penodol yn cael eu hystyried i ddarpar brentisiaid o gartrefi incwm isel.

Mae'n bwysig hefyd fod y cyfle i ddilyn prentisiaeth yn opsiwn hyfyw i ddysgwyr ADY.  Mae angen edrych yn ofalus ar y posibiliadau a sut y gellir sicrhau darpariaeth o'r radd flaenaf i'r garfan hon.

Yn ôl ystadegau Llywodraeth Cymru:

'Mae pobl ifanc anabl yn llawer fwy tebygol o fod yn NEET na phobl ifanc nad ydynt yn anabl. Mae'r gwahaniaeth hwn hyd yn oed yn fwy amlwg ar gyfer pobl ifanc 19 i 24 oed o gymharu â phobl ifanc 16 i 18 oed. Yn y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2024, mae cyfran y bobl anabl sy'n NEET yn codi o 19.1% ar gyfer pobl ifanc 16 i 18 oed i 38.7% ar gyfer pobl ifanc 19 i 24 oed.' [6]

A fyddai ehangu'r cyfleoedd prentisiaethau a sicrhau darpariaeth addas ar gyfer y bobl ifanc hyn yn gam i'r cyfeiriad cywir o ran gostwng y niferoedd sydd yn NEET?  Mae ysgolion yn gallu darparu ar gyfer pobl anabl nes eu bod yn 18/19 oed, ond nid ydynt yn gallu darparu wedi'r oedran hwnnw.  Mae angen targedu'r bobl ifanc hyn ynghynt.   Er bod ysgolion yn gallu darparu ar gyfer pobl anabl tan eu bod yn 18/19 oed, nid yw hi bob amser yn wir mai'r ysgol yw'r lle gorau ar gyfer y dysgwyr hyn.

Byddai sicrhau mwy o gyfloedd profiad gwaith yn gymorth i sicrhau bod dysgwyr yn dilyn prentisiaethau addas.  Rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i lwybrau gyrfa mewn digon o bryd i allu darparu'n briodol ar gyfer dysgwyr.  Mae cyfleoedd profiad gwaith dilys, o ansawdd uchel yn gallu bod yn gymorth i ddysgwyr benderfynu pa drywydd i'w ddilyn yn hwyrach yn ei fywyd.

**Sylw i gloi**

Mae'r ddogfen y cyfeirir ati uchod 'Cysoni'r model prentisiaethau ag anghenion economi Cymru (Llywodraeth Cymru – Chwefror 2017) yn nodi nifer o argymhellion ac yn nodi camau gweithredu dros gyfnod o bum mlynedd. Byddai'n fuddiol gweld i ba raddau y gwireddwyd dyheadau'r ddogfen hon. Ymddengys y byddai ailymweld â'r ddogfen a gweithio ymhellach ar ei gwireddu yn gam buddiol.

Mae angen mwy o gydweithio hefyd rhwng sefydliadau addysg, Gyrfa Cymru a busnesau a sefydliadau, er mwyn sicrhau:

a) bod mwy o gyfleoedd i'n pobl ifanc

[6] https://www.llyw.cymru/pobl-ifanc-heb-fod-mewn-addysg-cyflogaeth-neu-hyfforddiant-neet-ebrill-2023-i-fawrth-2024-html

b)  bod y profiadau mwyaf addas yn cael eu cynnig i'n dysgwyr
c)  bod darpariaethau cyfrwng Cymraeg yn cael eu hybu a'u hyrwyddo
ch) bod sylw yn cael ei roi i gynnig profiadau dilys, gwerthfawr i ddysgwyr ag ADY, a bod y dysgwyr hyn yn cael eu targedu a'u paratoi yn gynnar ar gyfer profiadau byd gwaith

**Chwefror 2025**